



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
------------	------	----------

Luc 22: 7-13



- 1 Daeth diwrnod cyntaf Gŵyl y Bara Croyw (hynny ydy, y diwrnod pan roedd rhaid aberthu oen y Pasg). Dyma Iesu'n anfon Pedr ac Ioan yn eu blaenau i wneud y trefniadau. "Ewch i baratoi swper y Pasg i ni, er mwyn i ni i gyd gael bwyta gyda'n gilydd," meddai wrthyn nhw.



- 2 "Ble rwyd ti am i ni fynd i'w baratoi?" medden nhw wrtho. Atebodd e, "Wrth i chi fynd i mewn i'r ddinas bydd dyn yn dod i'ch cyfarfod yn cario llestr dŵr. Ewch ar ei ôl i mewn i'r tŷ y bydd yn mynd iddo, a gofyn i'r perchennog, 'Mae'r athro eisiau gwybod ble mae'r ystafell westai, iddo ddathlu'r Pasg gyda'i ddisgyblion.' Bydd yn mynd â chi i fyny'r grisiau i ystafell fawr wedi ei pharatoi'n barod. Gwnewch swper i ni yno."



-
- 3 I ffwrdd â nhw, a digwyddodd popeth yn union fel roedd Iesu wedi dweud.



-
- 4 Dyma nhw'n gweld y dyn yn cario'r llestr dŵr. (Roedd hyn yn anarferol oherwydd mai marchod oedd fel arfer yn cario dŵr)



-
- 5 Dyma nhw'n dilyn y dyn....



-
- 6 ..drwy strydoedd cul Jerwsalem...



-
- 7 ...i mewn i ardal o'r ddinas ble roedd nifer o elynion Iesu'n byw.



-
- 8 Daliodd Pedr ac Ioan ati i ddilyn y dyn.



-
- 9 O'r diwedd dyma nhw'n cyrraedd y tŷ gyda ystafell fawr wedi ei pharatoi'n barod.



-
- 10 Dyma nhw'n paratoi swper y Pasg yno. Pam fod lleoliad y tŷ mor gyfrinachol? Oherwydd fod Iesu'n gwybod bod Jwdas am ei fradychu ac roedd o eisiau bwyta un pryd o fwyd olaf gyda'i ddisgyblion cyn iddo farw.



-
- 11 Cyfieithwyd gan www.beibl.net



www.freebibleimages.org

-
- 12

